Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Canllaw -
# Ar Baru Swyddi f1.1

Canllaw – Ar Baru Swyddi

| **Cymeradwywyd y Polisi gan** | **Dyddiad Cymeradwyo** | **Dyddiad Gweithredu** | **Perchennog y Polisi** | **Dyddiad Adolygu** |
|---|---|---|---|---|
| Uwch Dîm Arweinyddiaeth | 28.03.13 | 28.03.13 | SV | 28.03.16 |

Cyn cysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ynghylch cynnwys y polisi hwn, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y fewnrwyd a'r canllawiau perthnasol.

Fel pob dogfen ar y fewnrwyd, mae'r polisi yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau deddfwriaeth a pholisi. Mae'r fersiynau diweddaraf o holl ddogfennau Adnoddau Dynol i'w gweld ar dudalennau Adnoddau Dynol

| **Rhif y Fersiwn** | **Dyddiad Cymeradwyo** | **Cymeradwywyd gan** | **Diwygio** |
|---|---|---|---|
| f1.0 | 28.03.13 | Sophie Vaughan | Canllaw Newydd |
| f1.1 | 30.07.18 | Andrea Malam | Ail-fformatio |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Canllawiau Ar Baru Swyddi

**Darllenwch y nodiadau hyn gyda'r Taflenni Ffeithiau ailstrwythuro i ddeall pryd yn ystod y broses i ddefnyddio paru swyddi**

1. Mae angen llenwi'r ffurflen o flaen llaw gyda meini prawf y swydd ddisgrifiad newydd a fydd yn cael ei defnyddio yn y broses o baru swyddi. Bydd hyn yn cynnwys dewis y prif atebolrwydd a'r meini prawf gwybodaeth hanfodol a phrofiad allweddol. Os oes unrhyw rai heb eu cynnwys, mae angen cyfiawnhau hyn yn wrthrychol.

2. Efallai y bydd y rheolwr yn dymuno defnyddio'r holl atebolrwydd allweddol a'r wybodaeth a'r profiad hanfodol ond ni ddylid defnyddio llai na'r chwech yn yr atebolrwydd allweddol a'r categori gwybodaeth a sgiliau allweddol cyfan.

3. Gall y rheolwr nodi gweithiwr i'w baru neu fe all y gweithiwr ofyn am gael ei baru/pharu â'r swydd ar sail y meini prawf uchod.

4. Gall y rheolwr ofyn i'r gweithiwr lenwi'r ffurflen yn gyntaf gan mai deiliad y swydd sy'n gwybod orau am y gwaith maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Gall deiliad y swydd ddefnyddio eu **rôl bresennol yn unig** ond gallant gyflwyno eu hamcanion a'u cymwyseddau cyfredol diweddaraf o'u harfarniad os nad yw eu swydd ddisgrifiad yn gyfredol. Ni ellir ystyried sgôr arfarniadau fel rhan o'r broses hon. Gan mai rôl y swydd ac nid cymhwyster y gweithwyr sy'n cael eu paru.

5. Gall y rheolwr yna lenwi'r ffurflen paru swyddi gan ddefnyddio'r meini prawf sgorio ar frig y ffurflen. Mae'n rhaid i'r rheolwr ddarparu tystiolaeth ar y ffurflen ar gyfer y penderfyniad ynglŷn â'r sgôr.

6. Os bu i'r rheolwr a'r gweithiwr ddewis llenwi'r ffurflen gyda'i gilydd, mae'n rhaid defnyddio'r dull hwn gyda **Phob** gweithiwr.

7. Mae angen rhannu'r ffurflen hon gyda'r gweithiwr mewn cyfarfod **wyneb yn wyneb**, a fydd yn caniatáu trafod y dystiolaeth mae'r rheolwr a'r gweithiwr wedi'i defnyddio. Dyma gyfle i'r rheolwr egluro'r rhesymau manwl dros y penderfyniad ar baru â swydd.

8. Yna, gall y gweithiwr ddarparu gwybodaeth ychwanegol os nad ydynt yn cytuno â'r rheolwr ac os oes ganddynt achos dros wneud hynny.

9. Dylai'r rheolwr ystyried cyflwyniad terfynol y gweithiwr.

10. Dylai'r rheolwr gyfarfod gyda'r gweithiwr i ddweud wrthynt beth yw'r penderfyniad terfynol.

11. Os oes anghydfod, dylid atgyfeirio'r mater at **reolwr annibynnol** ar ffurf **apêl** (gan ddilyn y weithdrefn apelio gyffredinol), a fydd yn profi'r sail resymegol dros y penderfyniad, gan wirio bod y dystiolaeth yn wrthrychol a bod meini prawf y sgorio wedi'u defnyddio'n gyson.

## 12. Siart lif yn dangos camau'r broses

